

Y Nadolig Gorau Erioed

gan Anni Llŷn

The Best Christmas Ever

1. Roedd hi'n Noswyl Nadolig, ond roedd Llew wedi pwdu.
Doedd o ddim eisiau paratoi a helpu.
2. Roedd Llew eisiau chwarae a bwyta siocled tra bod Cyw a'r criw yn gweithio'n galed.
3. "Ond Llew," meddai Cyw, "mae angen i ti wneud mins peis. Ffrefrynnau Siôn Corn – cacennau blasus, neis!"
4. "Beth am Bolgi?" holodd Llew. "Wneith o goginio!" Ond roedd Bolgi'n rhy brysur yn gorffen addurno.
5. "Neu Jangl?" holodd wedyn. Ond roedd Jangl hefyd yn brysur yn lapio anrhegion hyfryd.
6. "Beth am Plwmp a Deryn? Ble maen nhw?" "Wedi mynd ag anrheg i Gwen y Gwdihŵ."
7. "Wel Triog felly – gall hi ddod i helpu." "Mae Triog yn nôl y llysiau at fory."
8. "Dere Llew," meddai Cyw yn garedig. "Mae paratoi yn rhan o hwyl y Nadolig."
9. Ac yn wir i chi, ar ôl dechrau yn y gegin, roedd Llew yn mwynhau, yn gwenu a chwerthin.
10. Coginiodd bentwr o fins peis blasus. "Dwi'n siŵr bydd Siôn Corn yn andros o hapus!"
11. A'r noson honno, daeth Siôn Corn i'w ddeffro: "Diolch am y mins peis!" Oedd Llew yn breuddwydio?
12. "Nadolig Llawn Llew!" bloeddiodd, wrth hedfan dros y coed. "Waw!" sibrydodd Llew. "Dyma'r Nadolig gorau erioed!"
1. It was Christmas Eve, but Llew was sulking. He didn't want to get ready or help.
2. Llew wanted to play and eat chocolate while Cyw and the crew were working hard.
3. "But Llew," said Cyw, "you need to make mince pies. Father Christmas's favourites – delicious, tasty cakes!"
4. "What about Bolgi?" asked Llew. "He'll cook!" But Bolgi was too busy finishing the decorating.
5. "Or Jangl?" he then asked. But Jangl was also busy wrapping lovely presents.
6. "What about Plwmp and Deryn? Where are they?" "They have taken a present to Gwen the Owl."
7. "Well Triog then – she can come and help." "Triog is getting the vegetables for tomorrow."
8. "Come on Llew," said Cyw kindly. "Getting ready is part of the fun of Christmas."
9. And would you believe it, after starting in the kitchen, Llew was enjoying himself, smiling and laughing.
10. He cooked a pile of delicious mince pies. "I'm sure Father Christmas will be very happy!"
11. And that night, Father Christmas came to wake him up: "Thanks for the mince pies!" Was Llew dreaming?
12. "Merry Christmas Llew!" he shouted, as he flew over the trees. "Wow!" Llew whispered. "This was the best Christmas ever!"

